



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Confirmed Minutes of the Board Meeting
held on 25 June 2020,
(held electronically via skype / telephone)**

Present:		
Jan Williams	(JW)	Chair
Tracey Cooper	(TC)	Chief Executive
Jyoti Atri	(JA)	Interim Executive Director of Health and Wellbeing
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Executive Director of Quality, Nursing and Allied Health Professionals
Kate Eden	(KE)	Non-Executive Director, Vice Chair and Chair of Quality, Safety and Improvement Committee
Dyfed Edwards	(DE)	Non-Executive Director and Chair of Audit and Corporate Governance Committee
Huw George	(HG)	Deputy Chief Executive and Executive Director of Finance and Operations
Judi Rhys	(JR)	Non-Executive Director (Third Sector) and Chair of the People and Organisational Development Committee
Quentin Sandifer	(QS)	Executive Director of Public Health Services/Medical Director
Stephen Palmer	(SP)	Non-Executive Director
Alison Ward	(AW)	Non-Executive Director (Local Authority)
In Attendance:		
Mark Bellis	(MB)	Director of Policy and International Health, WHO Collaborating Centre on Investment for Health & Well-being (WHO CC)
Sian Bolton	(SB)	Interim Transition Director, Knowledge Directorate,

John Boulton	(JB)	Director of NHS Quality Improvement and Patient Safety/Director Improvement Cymru
Helen Bushell	(HB)	Board Secretary and Head of Board Business Unit, via teleconference
Verity Winn	(VW)	Audit Wales
Stephanie Wilkins	(SW)	Representative of Staff Partnership Forum
Dr Tom Connor	(TmC)	Bioinformatics Lead Public Health Wales
Apology:		
Phil Bushby	(PB)	Director of People and Organisational Development

The meeting commenced at 10:00

PHW110/2020	Welcome
JW welcomed everyone to the meeting, noting the need to continue with virtual meetings based on a Covid-related agenda. She extended a particular welcome to those observing the meeting, explaining the rationale behind the selection of agenda items. JW went on to note that papers presented to the Board were often subject to detailed scrutiny at Committee level, or worked through in earlier drafts in Board development sessions. This prior scrutiny enabled Board meetings to focus on its overarching governance role.	
PHW111/2020 Apologies	
The Board noted the apology for absence.	
PHW112/2020 Declarations of Interest	
Board members made no additional declarations of interest in addition to those already on the declarations of interest register.	
PHW113/ 2020 Minutes, Action Log and matters arising from the Board Meeting on 28 May 2020	
The minutes of the meeting held on 28 May 2020 were approved as a true and accurate record. (Ref 3.1.0.250620).	
The Board considered the Action Log (Ref 3.1.0.250620). The Board approved the closure of the action marked as complete.	
PHW114/2020 Annual accounts and reports 2019/20	
The Board received the Annual Accounts and Reports for 2019/20 (Ref 4.0 250620).	

DE confirmed that the Audit and Corporate Governance Committee had received the Annual accounts and reports on two occasions; on the latter, the Committee had noted the ISA-260 document from Audit Wales. This confirmed the expectation that the Auditor General would issue an unqualified opinion.

TC extended her thanks to all staff from the Finance, People and OD and Board Business Unit teams for their work in producing the annual statements.

HB noted one minor change to the section on Non-Executive Director recruitment.

The Board resolved to:

- **Receive** the Audit Wales Annual Opinion (ISA 260)
- **Approve** the Accountability Report for 2019/20 and the Financial Accounts
- **Note** the submission of these to Welsh Government on 30 June 2020.

PHW115/2020 Board Assurance Framework

PHW115.1 Chief Executive's Report

The Board **received** the Chief Executive's report (ref 5.1 250620).

TC extended her thanks to all staff across the whole organisation for their ongoing hard work in managing the overall pandemic, coupled with recent localised outbreaks.

TC drew attention to the 'Black Lives Matter' section of her report, asserting her (and the Board's) absolute commitment to ensuring that Public Health Wales was a safe, welcoming and supportive place to work.

She had met with the Chair of the BAME staff network and other colleagues to discuss recent world events and to review work underway in Public Health Wales. She went on to confirm the review of the Bullying and Harassment Policy and the provision of additional training with specific focus on training for those sitting on recruitment panels.

TC referenced the following reports from both Public Health Wales and Welsh Government

- The Report of the Socio Economic Subgroup
- How are we doing – focus on Equality
- Beyond the data: Understanding the impact of COVID-19 on BAME groups
- COVID-19 BAME Advisory Group - Potential impact of COVID-19 evidence paper

TC agreed to forward these reports to the Board.

Action: TC

KE welcomed the unequivocal response that Public Health Wales had taken on 'Black Lives Matter', congratulating the communications team on the robust responses posted on the public Facebook account to inappropriate comments from members of the public.

JW commented on the Board's role in setting the tone and culture of the organisation, confirming that the Board opposed discrimination in all its forms and stood firmly alongside BAME colleagues in opposing racism.

SW thanked TC for her report and particularly her comments in respect of Black Lives Matter. SW noted her attendance at Unite organised national BAME network; she would highlight any learning for the Public Health Wales network

ACTION: SW

TC updated the Board on the current position in respect of Test, Trace and protect noting the policy changes around population sampling centres and the increased use of Lighthouse Laboratories. She commented on data capture issues in this respect and the discussions that the Welsh Government Chief Statistician was having discussions on this with colleagues in England.

TC referenced Appendix 1 (NHS Wales COVID-19 Operating Framework Quarter 1 Summary for Public Health Wales) and Appendix 2 (Public Health Wales written evidence on COVID-19 - submitted to Health, Social Care and Sport Committee). Both documents exemplified the breadth of work undertaken across the organisation in the 2020/21 year to date.

The Board **resolved** to receive the information contained within the report.

PHW 115.2 Integrated Performance Report

The Board **received** the Integrated Performance Report (Ref 5.2 250620).

HG updated the Board on the work underway to refine the dashboard, including the suggestions from the Non-Executive Directors. The July Board IPR would include a number of changes and others would follow, subject to clarification of data capture and ownership. HG envisaged a dynamic approach to dashboard development and thanked all those involved in the ongoing design work.

COVID-19

QS reported that, taking all the high level dashboard indicators together, the trends were downwards; with the exception of the outbreak-related rates in North Wales, positivity rates were now between 2%-5%. Both overall hospital

admission and critical care admission rates were down, presenting a markedly different picture from that during the peak in April 2020.

JA commented on the population impact to date, a point that SP echoed, noting the gradient in covid-19 deaths by deprivation fifths, as taken from the ONS mortality data for Wales. He asked about the intended use of such knowledge and TC agreed that it was now timely to step back and consider how it should influence policy and action; the Gold group had discussed the issue earlier that morning and would be returning to it.

QS noted the forthcoming additions to the surveillance report; taken together with the wider dashboard indicators that MB outlined, they would give the Board a broader picture of the position.

Action: QS/MB**Finance**

HG outlined the capital and revenue position as at 31 May 2020, reporting a net surplus of £16k. He drew the Board's attention to the inclusion in the month 02 Monitoring Return of the £3.140m costs directly associated with COVID-19. The position anticipated income of £2.330m from Welsh Government; as the total quantum of funding across Wales to address COVID-19 remained fluid and uncertain, the Board report included the associated risk.

Workforce

RB-W drew attention to the level of staff sickness, which remained low, particularly given Covid-19. She highlighted the Personal Risk Assessments that were being facilitated across the organisation and referenced the My Contribution Action plan that had been put in place and considered by Audit and Corporate Governance Committee earlier in the week.

SW noted the helpful data provided in relation to various workforce matters. SW asked if the Local Partnership Forum could receive and discuss the data. RB-W agreed to facilitate this.

ACTION: RB-W

RB-W also noted the inclusion of a comprehensive workforce report as a separate agenda item.

Putting Things Right

RB-W highlighted the key points on the receipt and management of complaints, incident management and claims. She noted the support that the Risk and IG team was providing across the organisation and the development of a newly-formatted report to capture covid-19 risks.

The Board **received** the report, and took assurance in relation to the information provided.

PHW 115.3 Public Health Wales Test, Trace and Protect Implementation Plan – Stage 1 Closure and Stage 2 Plan

The Board **received** the Public Health Wales Test, Trace and Protect Implementation Plan – Stage 1 Closure and Stage 2 Plan (Ref 5.3 250620). JW referenced the fact that the Board had seen two earlier versions of the plan; the Business Executive Team had approved the version presented to the meeting and sought the Board's ratification of it.

Board members expressed their appreciation of all the hard work involved in compiling the plan and congratulated the contributors.

The Board **ratified** the Implementation Plan and noted the accompanying work being undertaken on controls and assurance.

PHW 116/ 2020 COVID-19**PHW 116.1 COVID-19 General Update**

QS reported briefly on progress with Test, Trace and Protect, noting that, prior to the outbreaks in North Wales, the number of new cases had been decreasing. He then updated the Board on those outbreaks on Anglesey and in Wrexham, together with an incident in Merthyr Tydfil. The update included the latest positive numbers associated with each and the outbreak/incident management action being taken.

SP sought further information on the difference between actual clinical cases and those who were asymptomatic; he also asked about the engagement of environmental health officers (EHOs) QS advised that additional epidemiological analysis would result in better understanding of the data; he also confirmed that EHOs in North Wales formed part of the multi-agency team working under the operational leadership of the health board.

QS went on to commend the microbiology team in the Rhyl laboratory; staff had mobilised quickly, and introduced 8am- midnight shift working to process high volumes at speed. SW added her congratulations to the staff involved.

KE asked about the additional support provided by Public Health Wales' health protection consultants and whether that had called for any scaling up of resources. QS confirmed that the team had provided the Director of Public Health and the regional tier with direct support. The management of multiple outbreaks /incidents did represent a challenge, a point on which TC reflected. The high profile nature of the North Wales' outbreaks called for more proactive engagement with local partners, alongside the ongoing overall management of the pandemic.

JW expressed the Board's appreciation of all the action taken in responding so impressively to the outbreaks and thanked everyone involved. Partners had

commented most favourably on the way in which Public Health Wales was discharging its system leadership role.

PHW 116.2 COVID-19 – Focus on Surveillance

The Board **received** an update on COVID-19, focusing on surveillance (Ref 5.5.2 250620).

QS reminded the Board that effective surveillance formed a vital part of Test, Trace and Protect. He was pleased to introduce Chris Williams (CW), Consultant Epidemiologist, who would present on aspects of the surveillance programme set out in the Stage 2 Implementation Plan.

CW began by commenting on the long term trends in the proportion of positive testing episodes, noting the <5% positivity rate; the hospital rate was slightly higher than that in the community.

On the health board and local authority breakdown, both Betsi Cadwaladr and Cwm Taf Morgannwg Health Boards had seen slight recent increases, associated with the outbreaks/ incident mentioned earlier.

CW then drew attention to the age distribution, referencing the fact that the numbers of people under 60 resulted from the focus on testing key workers; covid-19 had impacted more severely on the older population, whilst children and young people tended to experience very mild symptoms.

CW noted the welcome reduction in the numbers of deaths, commenting on the risk factors associated with a number of deaths in people under 50. He talked about the R rate and the move from doubling to halving times for all hospital admissions, together with critical care admissions.

CW then turned to surveillance developments: clustering; community surveillance indicators; nosocomial infections; field epidemiology. On the last point, CW highlighted the training up of 6 hospital epidemiologists and the work underway in support of both hospital and community outbreaks. He referenced particularly the investigative work to date in care homes. Preliminary results suggested that admissions to care homes following hospital discharge had not placed larger homes at more risk of COVID-19 infections; however, the movement of staff was an implication.

CW concluded his presentation by summarising the modelling and collaborative working underway cross the UK; he noted particularly the work with Swansea University on building Wales' model for future predictions. CW commented on the implications of converting evidence into policy, the data issues associated with use of the lighthouse labs and the need for prioritisation of the multiple analyses and datasets requested.

JW thanked CW for his richly informative and illuminating presentation; she invited any comments or questions. SP complimented CW on the breadth of his excellent presentation; he was interested in whether current data capture allowed for a breakdown of cases by ethnicity and occupation and whether a drop in case numbers would enable some retrospective analysis.

CW advised that he had wanted to capture this information from the start; work had begun with Swansea University to explore this at research level, through interrogation of the SAIL data. The issues around completion of data fields were the subject of ongoing focus.

TC expressed her thanks to CW and the whole team for their expert contribution to the COVID-19 surveillance agenda, as the presentation had demonstrated.

JW expressed the Board's appreciation of the vital role the surveillance team was playing in the management of the pandemic to date; this would continue through the proposed developments. She invited CW to return to the Board later in the year to give a further update on these. In the meantime, Board members were welcome to contact CW directly with any more queries.

Board members noted the presentation slides would not be published due to aspects of the data being considered official sensitive.

PHW 116.3 Focus on Genomics

The Board **received** the update focusing on Genomics (Ref 5.5.3 250620).

QS introduced Professor Tom Connor (TmC), Bioinformatics Lead Public Health Wales. His presentation gave the Board the opportunity to learn more about the building of a world-leading COVID-19 sequencing service in Wales.

TmC outlined the development of the Public Health Wales Pathogen Genomics Unit (PenGu) over a 3-4 year period; he explained the purpose of the study of genomics and how the team had applied it to covid-19. Within 24 hours of approval to switch on sequencing for covid-19, the team had sequenced the first SARS-CoV-2 genome. Building an analysis and reporting system from scratch, the team had gone on to sequence and share more genomes than all but two other countries- the US and England. This third in the world ranking was testament to the expertise and commitment of all involved.

The data supplied was supporting every level of the pandemic response, and TmC gave examples of its current impact. He concluded by setting out area for future work, bringing to the Board's attention the possible implications of increased use of the lighthouse labs.

SP congratulated TmC and all those acknowledged at the start of his presentation; this world-leading sequencing service had so many applications,

from local to international level and it was incumbent on the Board to offer every support and protection.

On behalf of the Board, JW congratulated TmC and his colleagues on their ground-breaking work and expressed members' inordinate pride in their achievement.

PHW 116.4 Organisational Recovery Including reactivation of services

The Board **received** an update on the Organisational Recovery Including reactivation of services (Ref 5.5.4 250620).

HG advised that, given the ongoing nature of the pandemic, the organisational recovery plan would be subject to change. He reported on the commissioning of a review of office and wider estate accommodation, including facilities for screening services, aimed at ensuring the safety of both staff and service users.

HG went on to outline the personal risk assessment process for all staff; where possible, staff would continue to work from home for the foreseeable future.

QS then outlined the approach to reactivating the five suspended national screening programmes; he confirmed that the approach had both business executive team approval and Welsh Government support. Board discussions included the potential for different models of delivery for those services/areas of work suspended; Board members also highlighted the importance of identifying different performance measures in the future.

KE confirmed that, at its July 2020 meeting the Quality, Safety and Improvement Committee would also consider the reactivation of screening programmes.

The Board took **assurance** on the approach set out in the report to organisational recovery, including the reactivation of screening programmes.

PHW 116.5 Workforce – Our People

The Board **received** a report on workforce matters (Ref 5.5.6 250620).

RB-W outlined the areas contained within the report, commenting in relation to the staff survey, re-deployment, training and development, specialist recruitment, health and safety and staff wellbeing.

The Board asked several follow up questions on: staff health and wellbeing; support for staff working at home; VPN access; the breakdown of staff available for redeployment; resources available for training and support; recruitment plans and managing overtime and annual leave.

RBW agreed to provide a briefing for the Board outside the meeting.

Action: RB-W**PHW117/2020 Committees of the Board: Report From Committee Chairs**

The Board **received** the Committees of the Board: Report From Committee Chairs paper (Ref 5.8 250620).

DE provided a verbal update following the Audit and Corporate Governance Committee meeting on the 23 June. He confirmed that the Committee had spent the majority of its time on the annual accounts, as discussed earlier in the Board agenda.

DE advised that the Committee had also sought assurance on Information Flows and My Contribution. Oversight would continue on both behalf of the Board.

Action: DE/HG

The Board **resolved** to consider and note the update from the Committee Chairs (Ref 5.8 250620).

PHW 118/2020 Board Forward Work Plan 2020/21

The Board **received** the Board Forward Work Plan 2020/21 (Ref 5.9 250620).

Date of Next Formal Meeting of the Board

The next meeting was scheduled for the 30 July 2020.

JW closed the public session of the Board, thanking everyone for the information provided.

Meeting closed at 12:50.



**Cofnodion wedi'u cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2020,
(yn electronig drwy skype / dros y ffôn)**

Yn bresennol:

Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nysio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Quentin Sandifer	(QS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol
Stephen Palmer	(SP)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)

Hefyd yn Bresennol:

Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol WHO ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant
-------------	------	--

Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth,
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd, drwy gyfrwng telegynadledda
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff
Dr Tom Connor	(TmC)	Arweinydd Biowybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiheuriad:

Phil Bushby	(PB)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
-------------	------	--

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

PHW110/2020 Croeso

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan nodi'r angen i barhau â chyfarfodydd rhithwir yn seiliedig ar agenda sy'n gysylltiedig â Covid. Estynnodd groeso arbennig i'r rhai a oedd yn arsylwi'r cyfarfod, gan esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'r eitemau a ddewiswyd ar gyfer yr agenda. Aeth JW ymlaen i nodi bod papurau a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn aml yn destun proses graffu fanwl ar lefel Pwyllgorau, neu bod drafftiau cynharach yn cael eu trafod yn sesiynau datblygu'r Bwrdd. Roedd y gwath craffu blaenorol hwn yn galluogi cyfarfodydd y Bwrdd i ganolbwytio ar ei rôl lywodraethu gyffredinol.

PHW111/2020 Ymddiheuriadau

Nododd y bwrdd yr ymddiheuriad am absenoldeb.

PHW112/2020 Datgan Buddiannau

Ni wnaeth aelodau'r bwrdd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar y gofrestr datganiadau o fuddiannau.

PHW113/ 2020 Cofnodion, Camau Gweithredu a materion yn codi o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Mai 2020

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mai 2020 fel cofnod gwir a chywir. (Cyf 3.1.0.250620).

Ystyriodd y Bwrdd y Cofnod o Gamau Gweithredu (Cyf. 3.1.0.250620). **Cymeradwyodd** y Bwrdd y penderfyniad i gau'r cam gweithredu y nodwyd ei fod wedi'i gyflawni.

PHW114/2020 Cyfrifon ac adroddiadau blynnyddol 2019/20

Derbyniodd y Bwrdd y Cyfrifon a'r Adroddiadau Blynnyddol ar gyfer 2019/20 (Cyf 4.0 250620).

Cadarnhaodd DE fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn y Cyfrifon a'r adroddiadau blynnyddol ar ddu achlysur; ar yr achlysur olaf, roedd y Pwyllgor wedi nodi'r ddogfen ISA-260 gan Archwilio Cymru. Cadarnhaodd hyn y disgwyliad y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi barn ddiamond.

Estynnodd TC ei diolch i'r holl staff o'r timau Cyllid, Pobl a Datblygu Sefydliadol ac Uned Fusnes y Bwrdd am eu gwaith yn cynhyrchu'r datganiadau blynnyddol.

Nododd HB un newid bach i'r adran ar recriwtio Cyfarwyddwr Anweithredol.

Penderfynodd y Bwrdd:

- **Dderbyn** Barn Flynyddol Archwilio Cymru (ISA 260)
- **Cymeradwyo** yr Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer 2019/20 a'r Cyfrifon Ariannol
- **Nodi** y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2020.

PHW115/2020 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**PHW115.1 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr (cyf 5.1 250620).

Estynnodd TC ei diolch i'r holl staff ar draws y sefydliad cyfan am eu gwaith caled parhaus wrth reoli'r pandemig cyffredinol, ynghyd ag achosion lleol diweddar.

Tynnodd TC sylw at adran 'Mae Bywydau Du o Bwys' yn ei hadroddiad, gan bwysleisio ei hymrwymiad cadarn hi (ac ymrwymiad cadarn y Bwrdd) i sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lle diogel, croesawgar a chefnogol i weithio ynddo.

Roedd wedi cwrdd â Chadeirydd rhwydwaith staff BAME a chydweithwyr eraill i drafod digwyddiadau diweddar byd-eang ac i adolygu'r gwaith sydd ar y gweill yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aeth ymlaen i gadarnhau'r adolygiad o'r Polisi Bwlio ac Aflonyddu a'r ddarpariaeth o hyfforddiant ychwanegol gyda ffocws penodol ar hyfforddiant i'r rhai sy'n eistedd ar baneli recriwtio.

Cyfeiriodd TC at yr adroddiadau canlynol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru

- Adroddiad yr Is-grŵp Cymdeithasol Economaidd
- Sut mae pethau'n mynd – canolbwytio ar Gydraddoldeb
- Tu hwnt i'r data: Deall effaith COVID-19 ar grwpiau BAME
- Grŵp Cyngori BAME COVID-19 – Papur tystiolaeth ar effaith bosibl COVID-19

Cytunodd TC i anfon yr adroddiadau hyn at aelodau'r Bwrdd.

Camau gweithredu: TC

Croesawodd KE ymateb diamwys Iechyd Cyhoeddus Cymru i 'Mae Bywydau Du o Bwys', gan longyfarch y tîm cyfathrebu ar yr ymatebion cadarn a roddwyd ar y cyfrif Facebook cyhoeddus i sylwadau amhriodol gan aelodau'r cyhoedd.

Gwnaeth JW sylwadau ar rôl y Bwrdd wrth osod naws a diwylliant y sefydliad, gan gadarnhau bod y Bwrdd yn gwrthwynebu gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau ac yn sefyll yn gadarn ochr yn ochr â chydweithwyr BAME i wrthwynebu hiliaeth.

Diolchodd SW i TC am ei hadroddiad ac yn arbennig am ei sylwadau mewn perthynas â Mae Bywydau Du o Bwys. Nododd SW iddi fynychu cyfarfod o rwydwaith BAME cenedlaethol Unite; byddai'n tynnu sylw at unrhyw wersi ar gyfer rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

CAMAU GWEITHREDU: SW

Rhoddodd TC y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â Profi, Olrhain a Diogelu gan nodi'r newidiadau polisi o ran canolfannau samplu'r boblogaeth a'r defnydd cynyddol o Labordai Goleudy. Gwnaeth sylwadau ar faterion yn ymwneud â chipio data yn hyn o beth a'r trafodaethau yr oedd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yn eu cael ar hyn gyda chydweithwyr yn Lloegr.

Cyfeiriodd TC at Atodiad 1 (Crynodeb Chwarter 1 Fframwaith Gweithredol COVID-19 GIG Cymru ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru) ac Atodiad 2 (tystiolaeth ysgrifenedig Iechyd Cyhoeddus Cymru ar COVID-19 - a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon). Roedd y ddwy ddogfen yn enghraift o ehangder y gwaith a wnaed ar draws y sefydliad yn y flwyddyn 2020/21 hyd yma.

Penderfynodd y Bwrdd dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

PHW 115.2 Adroddiad Integredig ar Berfformiad

Derbyniodd y Bwrdd yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Cyf 5.2 250620).

Rhoddodd HG y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar y gwaith sydd ar y gweill i fireinio'r dangosfwrdd, gan gynnwys yr awgrymiadau gan y Cyfarwyddwyr

Anweithredol. Byddai'r Adroddiad Integredig ar Berfformiad a gâi ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf yn cynnwys nifer o newidiadau a byddai eraill yn dilyn, yn amodol ar eglurhad o gipio a pherchnogi data. Roedd HG yn rhagweld dull deinamig o ddatblygu dangosfwrdd a diolchodd i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith dylunio parhaus.

COVID-19

Dyweddodd QS, o gymryd holl ddangosyddion lefel uchel y dangosfwrdd gyda'i gilydd, fod y tueddiadau yn mynd at i lawr; ac eithrio'r cyfraddau'n gysylltiedig â'r achosion yng Ngogledd Cymru, roedd cyfraddau canlyniadau positif bellach rhwng 2%-5%. Roedd cyfraddau cyffredinol derbyniadau i'r ysbyty a derbyniadau i ofal critigol wedi gostwng, ac roedd hyn yn ddarlun gwahanol iawn i'r un a welwyd pan oedd y pandemig yn ei anterth ym mis Ebrill 2020.

Gwnaeth JA sylwadau ar yr effaith ar y boblogaeth hyd yma, pwynt a adleisiwyd gan SP, gan nodi'r graddiant mewn marwolaethau covid-19 yn ôl pumedau o amddifadedd, yn seiliedig ar ddata marwolaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru. Holodd yngylch y defnydd y bwriadwyd ei wneud o wybodaeth o'r fath a chytunodd TC ei bod bellach yn amserol cymryd cam yn ôl ac ystyried sut y dylai ddylanwadu ar bolisi a chamau gweithredu; roedd y grŵp Aur wedi trafod y mater yn gynharach y bore hwnnw a byddai'n dychwelyd ato.

Nododd QS yr ychwanegiadau arfaethedig i'r adroddiad gwyliadwriaeth; o'u hystyried gyda dangosyddion ehangach y dangosfwrdd a amlinellwyd gan MB, byddent yn rhoi darlun ehangach o'r sefyllfa i'r Bwrdd.

Camau gweithredu: QS/MB

Cyllid

Amlinellodd HG y sefyllfa o ran cyfalaf a refeniw ar 31 Mai 2020, gan nodi gwarged net o £16,000. Tynnodd sylw'r Bwrdd at y ffaith bod y £3.140 miliwn o gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â COVID-19 wedi'u cynnwys yn Ffurflen Fonitro mis 02. Disgwylwyd incwm o £2.330 miliwn gan Lywodraeth Cymru; gan fod cyfanswm cwantwm y cyllid ledled Cymru i ymdrin â COVID-19 yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac yn ansicr, roedd adroddiad y Bwrdd yn cynnwys y risg gysylltiedig.

Y gweithlu

Tynnodd RB-W sylw at lefelau salwch staff, a oedd yn parhau i fod yn isel, yn enwedig o ystyried Covid-19. Tynnodd sylw at yr Asesiadau Risg Personol a oedd yn cael eu cynnal ar draws y sefydliad a chyfeiriodd at y cynllun Gweithredu Fy Nghyfraniad a oedd ar waith ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn gynharach yn yr wythnos.

Nododd SW y data defnyddiol a ddarparwyd mewn perthynas ag amrywiol faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Gofynnodd SW a allai'r Fforwm Partneriaeth Leol Iderbyn sefyllfa a thrafod y data. Cytunodd RB-W i hwyluso hyn.

CAMAU GWEITHREDU: RB-W

Nododd RB-W hefyd y ffaith bod adroddiad cynhwysfawr wedi'i gynnwys ar y gweithlu fel eitem ar wahân ar yr agenda.

Gweithio i Wella

Tynnodd RB-W sylw at y pwyntiau allweddol ar dderbyn a rheoli cwynion, rheoli digwyddiadau a hawliadau. Nododd y gefnogaeth yr oedd y tîm Risg a Llywodraethu Gwybodaeth yn ei darparu ar draws y sefydliad a datblygiad adroddiad ar fformat newydd er mwyn cofnodi risgiau'n gysylltiedig â covid-19.

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad, a chymerodd sicrwydd mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarparwyd.

PHW 115.3 Cynllun Gweithredu Profi, Olrhain a Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru - Cau Cam 1 a'r Cynllun ar gyfer Cam 2

Derbyniodd y Bwrdd Gynllun Gweithredu Profi, Olrhain a Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru - Cau Cam 1 a'r Cynllun ar gyfer Cam 2 (Cyf 5.3 250620). Cyfeiriodd JW at y ffaith bod y Bwrdd wedi gweld dwy fersiwn gynharach o'r cynllun; roedd y Tîm Gweithredol Busnes wedi cymeradwyo'r fersiwn a gyflwynwyd i'r cyfarfod ac wedi gofyn i'r Bwrdd ei gadarnhau.

Mynegodd aelodau'r bwrdd eu gwerthfawrogiad o'r holl waith caled sy'n gysylltiedig â llunio'r cynllun a llonyfarchodd y cyfranwyr.

Cadarnhaodd y Bwrdd y Cynllun Gweithredu a nododd y gwaith cysylltiedig sy'n cael ei wneud ar reolaethau a sicrwydd.

PHW 116/20 2020 COVID-19**PHW 116.1 COVID-19 - Diweddarriad Cyffredinol**

Adroddodd QS yn fyr ar y cynnydd gyda Profi, Olrhain a Diogelu, gan nodi, cyn yr achosion yng Ngogledd Cymru, bod nifer yr achosion newydd wedi lleihau. Yna diweddarodd y Bwrdd ar yr achosion hynny ar Ynys Môn ac yn Wrecsam, ynghyd â digwyddiad ym Merthyr Tudful. Roedd y diweddarriad yn cynnwys y ffigurau diweddaraf o ran y profion cadarnhaol sy'n gysylltiedig â phob achos a'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli'r achosion/digwyddiadau.

Gofynnodd SP am wybodaeth bellach am y gwahaniaeth rhwng achosion clinigol gwirioneddol a'r rhai a oedd yn asymptomatig; holodd hefyd ynglŷn â'r defnydd o swyddogion iechyd yr amgylchedd. Dywedodd QS y byddai dadansoddiad epidemiologol ychwanegol yn arwain at well dealltwriaeth o'r data; cadarnhaodd hefyd fod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yng Ngogledd Cymru yn rhan o'r tîm amlasiantaeth sy'n gweithio o dan arweinyddiaeth weithredol y bwrdd iechyd.

Aeth QS ymlaen i ganmol y tîm microbioleg yn labordy'r Rhyl; roedd staff wedi symud yn gyflym, ac wedi cyflwyno shifft 8am tan hanner nos gan weithio i brosesu symiau mawr o brofion yn gyflym. Llongyfarchodd SW hithau y staff dan sylw.

Holodd KE am y cymorth ychwanegol a ddarperir gan ymgynghorwyr diogelu iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru ac a oedd hynny wedi golygu bod angen defnyddio rhagor o adnoddau. Cadarnhaodd QS fod y tîm wedi rhoi cymorth uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a'r haen ranbarthol. Roedd rheoli achosion/digwyddiadau niferus yn her a myfyriodd TC ar y pwynt hwn. Roedd natur proffil uchel yr achosion yng Ngogledd Cymru yn galw am ymgysylltiad mwy rhagweithiol â phartneriaid lleol, ochr yn ochr â pharhau i reoli'r pandemig yn gyffredinol.

Mynegodd JW werthfawrogiad y Bwrdd o'r holl gamau a gymerwyd wrth ymateb mor arbennig i'r achosion a diolchodd i bawb a fu'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw. Roedd partneriaid wedi gwneud sylwadau canmoladwy iawn ynghyllch y ffordd yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei rôl fel arweinydd y system.

PHW 116.2 COVID-19 - Gwyliadwriaeth

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar COVID-19, gan ganolbwytio ar wyliadwriaeth (Cyf 5.5.2 250620).

Atgoffodd QS y Bwrdd fod gwyliadwriaeth effeithiol yn rhan hanfodol o Brofi, Olrhain a Diogelu. Roedd yn falch o gyflwyno Chris Williams (CW), Epidemiolegydd Ymgynghorol, a fyddai'n gwneud cyflwyniad ar agweddu ar y rhaglen wyliadwriaeth a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cam 2.

Dechreuodd CW drwy wneud sylwadau ar y tueddiadau hirdymor yng nghyfran y profion positif, gan nodi bod y gyfradd canlyniadau positif yn <5%; roedd y gyfradd mewn ysbryd ychydig yn uwch na'r gyfradd yn y gymuned.

O ran y dadansoddiad fesul bwrdd iechyd ac awdurdod lleol, gwelwyd cynnydd bach ym Myrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg yn ddiweddar, yn gysylltiedig â'r achosion/digwyddiadau y soniwyd amdanynt yn gynharach.

Yna tynnodd CW sylw at y dosbarthiad oedran, gan gyfeirio at y ffaith bod niferoedd y bobl o dan 60 oed wedi deillio o'r ffocws ar brofi gweithwyr allweddol; roedd covid-19 wedi cael effaith fwy difrifol ar y boblogaeth hŷn, tra bod plant a phobl ifanc yn tueddu i brofi symptomau ysgafn iawn.

Nododd CW y gostyngiad i'w groesawu yn nifer y marwolaethau, gan roi sylwadau ar y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â nifer o farwolaethau ymysg pobl

o dan 50 oed. Soniodd am y gyfradd R a'r newid o ddyblu i haneru amseroedd ar gyfer pob derbyniad i'r ysbyty, ynghyd â derbyniadau gofal critigol.

Yna trodd CW at ddatblygiadau o ran gwyliadwriaeth: clystyru; dangosyddion gwyliadwriaeth gymunedol; heintiau nosocomiaidd; epidemioleg maes. Ar y pwynt olaf, tynnodd CW sylw at yr hyfforddiant a ddarparwyd i 6 epidemiolegydd mewn ysbytai a'r gwaith sydd ar y gweill i gefnogi achosion mewn ysbytai a chymunedau. Cyfeiriodd yn benodol at y gwaith ymchwiliol a wnaed hyd yma mewn cartrefi gofal. Roedd y canlyniadau cychwynnol yn awgrymu nad oedd derbyniadau i gartrefi gofal ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty wedi rhoi cartrefi mewn mwy o berygl o gael heintiau COVID-19; fodd bynnag, roedd cysylltiad â symud staff.

Gorffennodd CW ei gyflwyniad drwy grynhoi'r gwaith modelu a'r gwaith cydweithredol sydd ar y gweill ar draws y DU; nododd yn arbennig y gwaith gyda Phrifysgol Abertawe ar adeiladu model i Gymru ar gyfer rhagfynegiadau yn y dyfodol. Gwnaeth CW sylwadau ar oblygiadau troi tystiolaeth yn bolisi, y materion yn ymwneud â data sy'n gysylltiedig â defnyddio'r labordai goleudy a'r angen i flaenoriaethu'r dadansoddiadau a'r setiau data lluosog y gofynnwyd amdanynt.

Diolchodd JW i CW am ei gyflwyniad hynod addysgiadol a dadlennol; gwahoddodd unrhyw sylwadau neu gwestiynau. Canmolodd SP CW ar ehangder ei gyflwyniad rhagorol; roedd ganddo ddiddordeb gwybod a oedd y trefniadau presennol ar gyfer cipio data yn caniatáu dadansoddi achosion yn ôl ethnigrwydd a galwedigaeth ac a fyddai gostyngiad yn niferoedd yr achosion yn galluogi rhywfaint o ddadansoddiad ôl-weithredol.

Dyweddodd CW ei fod wedi bod yn awyddus i gofnodi'r wybodaeth hon o'r cychwyn; roedd gwaith wedi dechrau gyda Phrifysgol Abertawe i ymchwilio i hyn ar lefel ymchwil, drwy edrych ar ddata SAIL. Roedd y materion yn ymwneud â chwblhau meysydd data yn destun ffocws parhaus.

Mynegodd TC ei diolch i CW a'r tîm cyfan am eu cyfraniad arbenigol i'r agenda gwyliadwriaeth COVID-19, fel y dangoswyd yn y cyflwyniad.

Mynegodd JW werthfawrogiad y Bwrdd o'r rôl hanfodol yr oedd y tîm gwyliadwriaeth yn ei chwarae o ran rheoli'r pandemig hyd yma; byddai hyn yn parhau drwy'r datblygiadau arfaethedig. Gwahoddodd CW i ddychwelyd i'r Bwrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhain. Yn y cyfamser, roedd croeso i aelodau'r Bwrdd gysylltu â CW yn uniongyrchol gydag unrhyw gwestiynau pellach.

Nododd aelodau'r Bwrdd na fyddai sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu cyhoeddi gan yr ystyrir bod rhai agweddau ar y data yn swyddogol sensitif.

PHW 116.3 Genomeg

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad a oedd yn canolbwytio ar Genomeg (Cyf 5.5.3 250620).

Cyflwynodd QS yr Athro Tom Connor (TmC), Arweinydd Biowybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhoddodd ei gyflwyniad gyfle i'r Bwrdd ddysgu mwy am ddatblygiad gwasanaeth dilynianu COVID-19 sy'n arwain y byd yng Nghymru.

Amlinellodd TmC ddatblygiad Uned Genomeg Pathogen (PenGu) Iechyd Cyhoeddus Cymru dros gyfnod o 3-4 blynedd; eglurodd bwrrpas astudio genomeg a sut roedd y tîm wedi cymhwys o covid-19. O fewn 24 awr i gael cymeradwyaeth i ddefnyddio dilynianu ar gyfer covid-19, roedd y tîm wedi dilynianu'r genom SARS-CoV-2 cyntaf. Gan adeiladu system ddadansoddi ac adrodd o'r newydd, roedd y tîm wedi mynd ymlaen i ddilynianu a rhannu mwy o genomaun na phob un ond dwy wlad arall - yr Unol Daleithiau a Lloegr. Roedd y ffaith bod Cymru yn y trydydd safle yn y byd o ran y gwaith hwn yn dyst i arbenigedd ac ymrwymiad pawb sy'n ymwneud â'r gwaith.

Roedd y data a ddarparwyd yn cefnogi pob lefel o'r ymateb i'r pandemig, a rhoddodd TmC enghreifftiau o'i effaith bresennol. Gorffennodd drwy nodi meysydd gwaith ar gyfer y dyfodol, gan dynnu sylw'r Bwrdd at oblygiadau posibl defnyddio mwy ar labordai goleudy.

Llongyfarchodd SP TmC a phawb a enwyd ar ddechrau ei gyflwyniad; roedd sawl defnydd i'r gwasanaeth dilynianu hwn sy'n arwain y byd, o lefel leol i lefel ryngwladol ac roedd yn ddyletswydd ar y Bwrdd i gynnig pob cefnogaeth ac amddiffyniad.

Ar ran y Bwrdd, llongyfarchodd JW TmC a'i gydweithwyr ar eu gwaith arloesol a mynegodd falchder aruthrol yr aelodau yn eu cyflawniad.

PHW 116.4 Adferiad Sefydliadol gan gynnwys adfer gwasanaethau

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar yr Adferiad Sefydliadol gan gynnwys adfer gwasanaethau (Cyf 5.5.4 250620).

Dyweddodd HG, o ystyried natur barhaus y pandemig, y byddai'r cynllun adfer sefydliadol yn newid. Dywedodd fod adolygiad o swyddfeydd ac adeiladau ehangach wedi'i gomisiynu, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau sgrinio, gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a defnyddwyr gwasanaethau.

Aeth HG ymlaen i amlinellu'r broses asesu risg bersonol ar gyfer yr holl staff; lle bo hynny'n bosibl, byddai staff yn parhau i weithio gartref hyd y gellir rhagweld.

Yna amlinellodd QS y dull o adfer y pum rhaglen sgrinio genedlaethol a oedd wedi'u hatal; cadarnhaodd fod y dull hwn wedi cael cymeradwyaeth y tîm

gweithredol busnes a chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Roedd trafodaethau'r Bwrdd yn cynnwys potensial gwahanol fodelau cyflwyno ar gyfer y gwasanaethau/meysydd gwaith hynny a oedd wedi'u hatal; tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw hefyd at bwysigrwydd nodi gwahanol fesurau perfformiad yn y dyfodol.

Cadarnhaodd KE y byddai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020, hefyd yn ystyried y broses o adfer rhaglenni sgrinio.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch y dull a nodwyd yn yr adroddiad ar adferiad sefydliadol, gan gynnwys adfer y rhaglenni sgrinio.

PHW 116.5 Y gweithlu - Ein Pobl

Dderbyniodd y Bwrdd adroddiad ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu (Cyf 5.5.6 250620).

Amlinellodd RB-W y meysydd a gynhwyswyd yn yr adroddiad, gan wneud sylwadau mewn perthynas â'r arolwg staff, adleoli, hyfforddi a datblygu, reciwtio arbenigwyr, iechyd a diogelwch a lles staff.

Gofynnodd y Bwrdd sawl cwestiwn dilynol ar: iechyd a lles staff; cefnogaeth i staff sy'n gweithio gartref; mynediad at VPN; dadansoddiad o'r staff sydd ar gael i'w hadleoli; yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth; cynlluniau reciwtio a rheoli goramser a gwyliau blynnyddol.

Cytunodd RBW i ddarparu sesiwn frifio i'r Bwrdd y tu allan i'r cyfarfod.

Camau gweithredu: RB-W

PHW117/2020 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad Gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

Dderbyniodd y Bwrdd y papur Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau (Cyf 5.8 250620).

Rhoddodd DE ddiweddariad ar lafar yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Mehefin. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor wedi treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn trafod y cyfrifon blynnyddol, fel y trafodwyd yn gynharach yn agenda'r Bwrdd.

Dyweddodd DE fod y Pwyllgor hefyd wedi ceisio sicrwydd ar Lif Gwybodaeth a Fy Nghyfraniad. Byddai'r gwaith goruchwyliau yn parhau ar y ddwy elfen hyn ar ran y Bwrdd.

Camau gweithredu: DE/HG

Penderfynodd y Bwrdd ystyried a nodi'r diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau (Cyf 5.8 250620).

PHW 118/2020 Blaengynllun Gwaith y Bwrdd 2020/21

Derbyniodd y Bwrdd Flaengynllun Gwaith 2020/21 (Cyf 5.9 250620).

Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd:

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 30 Gorffennaf 2020.

Caeodd JW sesiwn gyhoeddus y Bwrdd, gan ddiolch i bawb am y wybodaeth a ddarparwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:50.